



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams

Dydd Gwener, 16 Rhagfyr 2022 am 10.00 am

**Yn Bresennol:** Louise Fleet (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Cynghorydd(wyr) - Abertawe

P M Black L R Jones R V Smith

E J King J E Pritchard

Cynghorydd(wyr) - Castell-nedd Port Talbot

W Carpenter N Jenkins

R Mizen S Renkes

Sefydliadau Cysylltiedig

Janet Watkins Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd

### Swyddog(ion)

Gareth Borsden

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Kim Collis

Archifydd Sirol

Craig Griffiths

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol - CNPT

Wayne John

Llyfrgellydd Sirol - CNPT

Tracey McNulty

Pennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol

### Ymddiheuriadau am absenoldeb

A Dulley a/ac Dr L Miskell

---

## 6 Ethol is-gadeiryddion ar gyfer blwyddyn y cyngorau 2022-2023.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd Wayne Carpenter yn Is-gadeirydd Castell-nedd Port Talbot y Pwyllgor ar gyfer 2022/2023.

## 7 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côt Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 8 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 30 Medi 2022 fel cofnod cywir.

## 9 Adroddiad Archifydd y Sir.

Cyflwynodd yr Archifydd Sirol adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2022.

### Y defnydd o'r gwasanaeth

Adroddodd am y ffigurau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r gwasanaeth drwy ei lwyfannau amrywiol yn bersonol ac ar-lein. Mae'r niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn parhau i gynyddu'n raddol.

Byddai'r ffigurau sy'n ymwneud â'r defnydd ar-lein o'r gwasanaeth ar gyfer 2021 yn cael eu dosbarthu yn dilyn y cyfarfod.

Dywedodd fod y broblem gyda'r band eang yn Sefydliad y Mecanyddion yn parhau, yn anffodus. Amlinellodd fod ganddo gyfarfod â Swyddogion yng CNPT yr wythnos nesaf i geisio gwneud cynnydd ar y mater.

Roedd staff *Ancestry* wedi bod i Ganolfan Ddinesig Abertawe yn ystod y chwarter i ailddigideiddio cofrestrau'r plwyf mewn manylder uwch a lliw a gedwir gan y gwasanaeth, bydd hyn yn gwella'r ddarpariaeth ar-lein ar gyfer y cyhoedd. Roedd gwirfoddolwyr o Gymdeithas Hanes Teulu Morgannwg hefyd wedi dychwelyd am y tro cyntaf ers y pandemig i barhau i fynegeoio cofnodion a gedwir gan yr archifau.

### Archif Ddarlledu Genedlaethol

Amlinellodd fod cynnydd ar y prosiect yn parhau i fod yn araf, mae rhywfaint o'r caledwedd wedi'i osod yng Nghanolfan Ddinesig Abertawe ond mae'n annhebygol y bydd y cyfleuster ar agor i'r cyhoedd tan yr haf nesaf o bosib oherwydd yr oedi gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

### Allgymorth a Gweithgarwch Addysgol

Amlinellodd fod 2 o'r ceisiadau am gyllid wedi bod yn llwyddiannus, ond yn anffodus, bu'r prosiect digideiddio a oedd yn ymwneud â chysylltiad Cymru â'r fasnach gaethweision yn aflwyddiannus.

Roedd ymweliadau ag ysgolion wedi aildechrau am y tro cyntaf ers y pandemig gyda phedwar ymweliad yn cael eu cynnal.

Amlinellodd fod staff yr archifau wedi bod yn rhan o drafodaethau gyda'r corff addysg rhanbarthol, Partneriaeth, ynglŷn â'r defnydd o wybodaeth a dogfennau a gedwir gan y gwasanaeth fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru newydd sy'n cael ei gyflwyno.

### Cyfarfodydd a Hyfforddiant Proffesiynol

Amlinellodd y gwahanol grwpiau proffesiynol a chyfarfodydd yr oedd wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter.

### Adleoli'r Archifau

Dywedodd fod y cynllun ar gyfer y cyfleuster archifau newydd ar hyn o bryd ar gam 4 RIBA. Mae'r cam hwn yn ymwneud â'r dyluniad technegol a'r ffactor pwysig allweddol yw bod y cyfleuster newydd yn cydymffurfio â BSI 4971.

Gwnaed rhai newidiadau i'r dyluniad o ran y wal geudod o gwmpas y storfa ers y cyfarfod diwethaf yn dilyn mewnbwn gan y Gwasanaeth Cadwraeth Cenedlaethol. Hefyd, caiff dadleithydd nawr ei osod.

Bydd diweddariadau pellach ar gynnydd y cynllun yn cael eu darparu mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

### Mynediad at Gasgliadau Archifau

Manylodd ar yr archifau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth yn ystod y chwarter.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.41 am

**Cadeirydd**